Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol a Darfodol) 2026

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg i'w osod gerbron Senedd Cymru ochr yn ochr â Gorchymyn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol a Darfodol) 2026. Mae hyn yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol a Darfodol) 2026.

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
10 Mawrth 2026

1. Diben a throsolwg

1.1. Mae erthygl 2 o'r gorchymyn cychwyn hwn yn dwyn y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ("y Ddeddf") i rym ar 1 Ebrill 2026:

a. adran 3(1) i (3) (cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg);
b. adran 4 (adolygu safonau'r Gymraeg);
c. adran 6 (Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg);
d. adran 7 (cyhoeddi ac adolygu'r Cod);
e. adran 24 (Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg);
f. adran 25 (Y Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach ar y gweithlu addysg);
g. adran 26(2)(b) (gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol);
h. adran 27 (Fframwaith Cenedlaethol: darpariaeth bellach am gynnwys, adolygu a diwygio);
i. adran 28(1)(a) ac (c) i (g), (2) a (3) (ymgynghori a chyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol);
j. adran 37 (dehongli).

1.2. Mae erthygl 3 o'r gorchymyn cychwyn hwn yn dwyn adran 28(1)(b) (ymgynghori ar y Fframwaith Cenedlaethol â'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol) o'r Ddeddf i rym ar 1 Awst 2027. Hwn yw'r un dyddiad â'r dyddiad y daw'r ddarpariaeth sy'n sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i rym o dan adran 56(3) o'r Ddeddf.

1.3. Mae erthygl 4 o'r gorchymyn cychwyn hwn yn dwyn Rhan 3 (addysg Gymraeg) i rym at ddibenion adran 37(e) o'r Ddeddf yn unig. Nid yw'n dwyn y dyletswyddau o dan Ran 3 i rym. Mae hyn yn golygu y bydd Rhan 3 yn cael ei dwyn i rym at ddiben dehongli categorïau iaith "Prif laith – Cymraeg", "Dwy laith" a "Prif laith – Saesneg, rhannol Gymraeg" yn adran 37(e) o'r Ddeddf yn unig. Bydd Rhan 3 yn cael ei dwyn i rym at ddibenion eraill yn ddiweddarach gan orchymyn cychwyn dilynol.

1.4. Hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir i gychwyn darpariaethau o fewn y Ddeddf, yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol.

<u>Darpariaeth drosiannol a darfodol</u>

1.5. Mae erthygl 5 o'r gorchymyn cychwyn hwn yn gwneud darpariaeth drosiannol a darfodol mewn perthynas ag adran 24 o'r Ddeddf (Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), sy'n cael ei dwyn i rym gan erthygl 2.

1.6. O dan adran 24 o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru lunio fframwaith ("y Fframwaith"), sy'n nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu cynigion strategaeth y Gymraeg mewn perthynas ag addysg Gymraeg, darpariaeth Gymraeg mewn addysg drydyddol ac mewn perthynas â chaffael y Gymraeg a dysgu Cymraeg gydol oes.

1.7. Mae adran 24(2) o'r Ddeddf yn datgan:

"(2) Yn y Rhan hon mae unrhyw gyfeiriad at "strategaeth y Gymraeg" yn gyfeiriad at y strategaeth ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a fabwysiedir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) (a gweler adran 1 am yr hyn y mae rhaid ei gynnwys yn y strategaeth)."

1.8. Effaith y ddarpariaeth drosiannol a darfodol yn erthygl 5 yw bod cyfeiriadau at "strategaeth y Gymraeg" yn adran 24 i'w darllen o'r dyddiad cychwyn, a hyd nes yr adeg y daw adran 1 o'r Ddeddf i rym yn llawn, fel pe baent yn gyfeiriadau at fersiwn ddrafft o strategaeth y Gymraeg sy'n cynnwys y materion a nodir yn adran 1(1) o'r Ddeddf ac a lunnir gan Weinidogion Cymru at ddiben ymgynghori.

1.9 Bydd adran 1 (i'r graddau nad yw eisoes mewn grym) yn cael ei dwyn i rym yn ddiweddarach gan orchymyn cychwyn dilynol a, than hynny, bydd y strategaeth y Gymraeg gyfredol a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru yn 2017 yn parhau i fod yn ei lle. Mae'r Fframwaith i nodi sut y bydd yn gweithredu'r cynigion mewn strategaeth sy'n cynnwys y materion a nodir yn adran 1(1) a, hyd nes yr adeg y bydd adran 1 wedi ei dwyn i rym yn llawn, bydd hon yn strategaeth ddrafft a lunnir gan Weinidogion Cymru at ddiben ymgynghori.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Gwneir y gorchymyn cychwyn hwn o dan adrannau 56(4) a 56(5) o'r Ddeddf.

3.2. Mae adran 56(4) o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy orchymyn, ddiwrnod pan ddaw darpariaethau i rym. Mae adran 56(5) o'r Ddeddf yn galluogi gorchymyn o'r fath i bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol ac i wneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad darpariaeth yn y Ddeddf i rym.

3.3. Er nad yw'r gorchymyn cychwyn hwn yn dilyn un o weithdrefnau'r Senedd, mae'n dal i fod yn ofynnol ei osod gerbron Senedd Cymru o dan adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

4. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

4.1. Ni chafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei gwblhau ar gyfer y gorchymyn cychwyn hwn. Mae hyn yn unol â'r esemptiad yn adran 3.2 o god ymarfer

Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.